Edwina Hart MBE OStJ AC / AM
Y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth
Minister for Business, Enterprise, Technology and Science

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-04-404
Ein cyf/Our ref EH/00179/13

William Powell AC
AC Canolbarth a Gorllewin Cymru
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau

committeebusiness@Wales.gsi.gov.uk

6 Chwefror 2013

Annwyl William,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 23 Ionawr yn gofyn am eglurhad pellach o'r ymateb gwreiddiol a roddais i Ddeiseb P-04-404 ynghylch Systemau di-griw yn Aber-porth.

Rwyf wedi ystyried y pwyntiau yn eich llythyr ac rwy'n credu i mi eu hateb, os oedd hynny'n bosibl, yn fy llythyr diwethaf. Ni allaf fanylu ymhellach ar y gweithgareddau na'r swyddi cysylltiedig.

O ran yr amgylchedd rheoleiddiol, ar hyn o bryd yn y DU, dim ond mewn gofod awyr o dan gyfyngiadau y ceir hedfan Cerbydau Awyr Di-griw. Bydd y sefyllfa'n aros fel hyn tan fod yr awdurdodau perthnasol yn fodlon bod y dechnoleg wedi datblygu ddigon fel bod awyrennau â chriw ac awyrennau di-griw yn gallu gweithredu'n saff gyda'i gilydd mewn gofod awyr agored, heb gyfyngiadau.

Wrth greu gofod awyr yng Nghymru yn arbennig ar gyfer profi a gwerthuso Systemau Awyr Di-griw (UAS),m ae gennym yr amodau i ddatblygu ffyrdd o'u defnyddio at ddibenion sifil, er enghraifft, y gwasanaethau brys; monitro'n tir, ein harfordir a'r môr; bywyd gwyllt a ffermio. Gall y rhain i gyd, heb os, fod yn fanteisiol i Gymru. Mae Llywodraeth Cymru'n cefnogi prosiect Ursula ar hyn o bryd. Dyma esiampl arall o brosiect sifil sy'n edrych ar y posibilrwydd o'u defnyddio i synhwyro o bell ar dir, yn bennaf ar dir âr sy'n cael ei ffermio'n ddwys i helpu o ran rheoli tir.

Mae cyfleusterau ParcAberporth yn rhoi Cymru mewn sefyllfa gref fel lleoliad sy'n arwain ym myd Profi a Gwerthuso Systemau Awyr Di-griw. Dyma farchnad sy'n tyfu, marchnad sydd â'r potensial i ddenu cwmnïau technoleg uchel eu gwerth i Gymru sy'n mynd i ddod â budd i'r economi.